| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **1 MAI 2014** |
| **PWNC** | **CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR** |
| **AWDUR(ON)** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor<br>Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Mabwysiadu'r Cynllun Strategol** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2013, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013 - 17. Prif bwrpas y Cynllun Strategol yw gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013 - 17, sef "Cefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd." Mae'r Cynllun Strategol yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod ac yn disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni.

1.2 Eleni eto, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd Aelodau yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo i adolygu'r Cynllun Strategol yn wyneb yr her ariannol enfawr a'r arbedion y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu canfod dros y blynyddoedd nesaf yn ogystal â thrafodaethau ad-drefnu tebygol ar y gorwel.

## 2. Cynnwys y Cynllun

2.1 Mae'r hyn sydd gerbron yn gynnyrch misoedd o waith adolygu a thrafod mewnol. Yn ogystal, gwahoddwyd sylwadau Aelodau, y cyhoedd a phartneriaid y Cyngor ar y blaenoriaethau drafft. O ran Aelodau, cafwyd sesiynau penodol gyda'r pedwar Fforwm Ardal yn gwahodd sylwadau ar y blaenoriaethau tebygol. Cafodd y sylwadau hynny a'r ymatebion iddynt eu rhannu gyda phob Aelod mewn rhifyn diweddar o Rhaeadr, er mwyn i Aelodau weld yr ymateb i'w sylwadau.

2.2 Unwaith eto eleni, rydym wedi ceisio bod yn fwy eglur am ein rhesymeg dros fynd i'r afael â rhai o'r materion yn y Cynllun a hefyd y canlyniadau yr ydym am eu haddo i drigolion Gwynedd.

2.3 Mae'r Cynllun yn cynnwys gwahanol fathau o brosiectau, rhai sydd yn trawsffurfio gwasanaethau ac yn arbed arian, rhai lle mae rheidrwydd i ymateb i ofynion statudol neu ofynion rheoleiddwyr ac eraill, er eu bod yn ddewisol, lle mae blaenoriaeth glir ar gyfer gwireddu. Yn ogystal, mae rhai o'r prosiectau sydd yn gwireddu canlyniadau pendant yn ystod 2014 - 15 a chynlluniau datblygol sydd yn waith paratoi pwysig ond lle y bydd unrhyw ganlyniadau yn debyg o gael eu gwireddu ar ôl 2014 - 15.

**3. Yr Her**

3.1 Un o'r pethau anoddaf ar yr adeg hon o wynebu her y Rhaglen Arbedion yw sicrhau'r capasiti digonol ar gyfer gweithredu ar yr addewidion hyn yn arian ac, yn fwy allweddol yn amser aelodau a swyddogion. Mae goblygiadau ariannol posib ynghlwm â rhai o'r ymrwymiadau yn y Cynllun a bydd y rheiny yn cael eu hystyried fesul achos wrth bwyso a mesur yr achosion busnes unigol.

3.2 Mae'r ddogfen ei hun yn nodi bod maint yr her ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu yn ei wneud yn anodd iawn barnu a fyddwn yn medru gwireddu pob un o'r addewidion yn y ddogfen. Mae'r uchelgais yn glir ond bydd yn rhaid i ni gadw llygad barcud ar bethau yn ystod y flwyddyn i weld a ydym yn medru gwireddu'r uchelgais hynny ym mhob maes blaenoriaeth.

**4. Argymhelliad**

**4.1 Gwahoddir y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun Strategol.**